

PWYLLGOR CRAFFU PLANT A PHOBL IFANC

DYDD MAWRTH, 11 RHAGFYR 2018

Yn
bressenol: Cynghorydd Bridgeman (Cadeirydd),
Y Cynghorwyr De'Ath, Taylor, Singh a/ac Burrage

Aelodau Cyfetholedig: Patricia Arlotte (Cynrychiolydd Gatholig Rufeinig), Carol Cobert (Cynrychiolydd yr Eglwys yng Nghymru) a/ac Karen Dell'Armi (Cynrychiolydd Rhiant-Lywodraethwr)

Chloe Burrage (Cyngor Ieuenctid Caerdydd)

Bu i'r Cadeirydd groesawu Liz Barry, Arolygydd Addysg a Hyfforddiant EM yng Nghymru i'r cadeirydd fel arsylwr. Llongyfarchodd y Pwyllgor Chloe Burrage ar ei phenodiad diweddar fel Prentis Corfforaethol yn y Gwasanaeth Ieuenctid a diolch iddi am ei barn, cwestiynau ac ymrwymiad i'r Pwyllgor oherwydd na fydd bellach yn gallu cynrychioli'r Cyngor Ieuenctid ar y Pwyllgor.

Talodd y Cadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor deyrnged i'r Cynghorydd Jim Murphy, a fu farw ar 1 Rhagfyr 2018.

46 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Hill-John, Joyce, Morgan and Phillips a Rebecca Crump.

47 : DATGAN BUDDIANNAU

Bu i'r Cynghorydd Bridgeman ddatgan budd personol yn eitem 7 wedi mynegi barn fel rhan o'r ymgynghoriad.

48 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Tachwedd yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

49 : GWASANAETH MABWYSIADU CYDWEITHREDOL Y FRO, Y CYMOEDD A CHAERDYDD – ADRODDIAD BLYNYDDOL

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Graham Hinchey (Aelod Cabinet dros Blant a Theuluoedd), Angela Harris (Rheolwr Mabwysiadu Rhanbarthol), Claire Marchant (Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a Deborah Driffield (Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Gwasanaethau'r Plant) i'r cyfarfod.

Cyflwynodd Angela Harris yr adroddiad a dywedodd wrth Aelodau mai hwn oedd y trydydd adroddiad blynyddol, sy'n trafod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Mawrth 2018. Comisiynwyd Adolygiad Gwerth Gorau ac adroddwyd arno. Dywedwyd bod rhan fwyaf y camau gweithredu a gododd o'r argymhellion wedi eu gwneud, ond mae rhai eisoes yn aros. O ran yr argymhellion fel canlyniad yr adolygiad, mae ystod y mesurau wedi cynyddu bob blwyddyn, sydd wedi codi angen am gofnodi mwy cyflawn.

Gwahoddwyd Aelodau i roi sylwadau, gofyn am eglurhad pellach neu holi cwestiynau ynghylch yr adroddiad. Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Trafododd Aelodau ôl troed daearyddol ychydig yn anarferol Cydweithrediad Mabwysiadu'r Fro, y Cymoedd a Chaerdydd, yn arbennig gan ei fod nawr yn y Barri. Hwn oedd y mwyaf o bum cydweithrediad rhanbarthol, ond gellid cynnig rhagor o wybodaeth yn crynhoi'r rheswm dros ôl troed rhanbarth y Fro, y Cymoedd a Chaerdydd.
- Ceisiodd Aelodau ragor o wybodaeth am y swydd Cydlynedd Marchnata a Recriwtio a chawsant wybod bod y swydd wedi ei chreu er mwyn helpu i dracio a thrin yr ymholiadau, gyda'r nod o gynyddu'r nifer a ddaw yn geisiadau. Roedd Aelodau'n bryderus o ddeall mai contract tymor penodedig yw hwn, ond mae cynnydd eisoes o ran y modd proffesiynol ac amserol y caiff hyn ei drin. Mae'n bwysig sicrhau, fodd bynnag, bod y broses yn drylwyr, yn dilyn yr ymholiad cyntaf.
- Cyfeiriodd Aelodau at y rhwystredigaeth ynghlwm â'r problemau ariannol a staffio pan gyflwynwyd adroddiad blaenorol a gofynnont a fu gwelliant o ran y materion hyn. Dywedodd y Rheolwr bod yr Adolygiad Arfer Gorau wedi ei gomisiynu o ganlyniad i waith a wnaed i ystyried capasiti'r gwasanaeth; nid oedd yr adnodd yn ateb y galw. Clywodd Aelodau bod dwy swydd Gweithiwr Cymdeithasol wedi eu creu ers yr adolygiad. Er y bu trosiant staff mawr yn ddiweddar, nid yw'r adnodd ychwanegol wedi ei werthfawrogi'n llawn; fodd bynnag, mae'r Tîm Gwasanaeth Mabwysiadu yn fwy sefydlog oherwydd yr adnodd ychwanegol ac yn gallu ymdopi'n well â'r galw yn ogystal â gostwng rhestrau aros.

Dywedodd Swyddogion ei bod yn hanfodol cadw'r capasiti dan arolwg o ran recriwtio mabwysiadwyr a chymorth mabwysiadu.

- Holodd Aelodau ynghylch hyblygrwydd yr hyfforddiant a roddir i fabwysiadwyr posibl a chawsant wybod ei bod yn bwysig denu ystod ehangach o fabwysiadwyr posibl. Mae'r hyfforddiant yn gwrs tridiau, ond mae un arall undydd wedi ei ychwanegu oherwydd y gwahaniaeth amser rhwng y cwrs a'r proses. Cynigir y cwrs dros benwythnos er mwyn ceisio helpu teuluoedd sy'n gweithio. Mae cynlluniau i newid y rheoliadau yng Nghymru y flwyddyn nesaf er mwyn gwneud hon yn broses dau gam, sef deufis ar gyfer yr ymholiad, hyfforddiant a phrofion ac yna pedwar mis ar gyfer asesu.
- Gofynnodd Aelodau a yw rhieni geni yn dod yn fwy o ran o'r broses a chawsant wybod bod hyn yn dal i fod yn her yn lleol ac yn genedlaethol. Caiff pob plentyn ei ddyrannu i gyrchwr teulu a fydd yn rhoi cwnsela i'r rhieni geni, anfon llythyrau dienw a mynd i gartref y rhieni geni. Bydd y tîm yn profi amryw ffyrdd o gyrraedd rhieni a allant fod yn teimlo'n drwm trwy'r broses. Yn aml, bydd rhieni'n cysylltu â'r tîm wedi cwblhau proses yr achos llys.

- Deallodd Aelodau er bod yn rhaid derbyn bod rhai lleoliadau wedi mynd i'r wal, mae'r nifer yn gymharol isel ac yn gymharol isel yn genedlaethol hefyd.

CYTUNWYD - Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu at Angela Harris (Rheolwr Mabwysiadu Rhanbarthol) ar ran y Pwyllgor er mwyn cyfleu eu sylwadau a'u harsylwadau yn ystod y drafodaeth ar y ffordd ymlaen.

50 : ADRODDIAD PERFFORMIAD CHWARTER 2 GWASANAETHAU PLANT

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Graham Hinchey (Aelod Cabinet dros Blant a Theuluoedd), Claire Marchant (Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a Deborah Driffield (Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Gwasanaethau'r Plant) i'r cyfarfod.

Cafodd Aelodau gyflwyniad ar Adroddiad Perfformiad Chwarter 2 a oedd yn nodi prif bwyntiau'r adroddiad diwygiedig yn ogystal â'r pwysau allweddol ac ymateb y Cyfarwyddwr.

Gwahoddwyd Aelodau i roi sylwadau, gofyn am eglurhad pellach neu holi cwestiynau ynghylch yr adroddiad. Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Trafododd Aelodau'r model Arwyddion Diogelwch a weithredwyd yn Abertawe a Chaerdydd yn fuan yn 2016 a chlywsant fod angen newid ymarfer wrth symud ymlaen; y nod yw gweithio â theuluoedd, cymryd risgiau ac ystyried beth y gallwn ni ei wneud i helpu'r teulu yn y gymuned. Mae'n bwysig bod amser i oedi a myfyrio cyn penderfynu mynd â phlant o'u teuluoedd.

Gofynnodd Aelodau a oes gan yr awdurdod y capasiti a'r adnoddau i fynd â hyn ymlaen a chawsant wybod bod swydd dros dro wedi ei chreu gyda nifer o flynyddoedd o brofiad a allai helpu â deall sut bydd y model yn gweithio a gallu gweithio gyda staff a theuluoedd. Er bod y fframwaith wedi ei sefydlu, bydd angen sicrhau ei fod yn gweithio'n gywir yn y dyfodol.

- Trafododd Aelodau'r ymgynghoriad ar ddrafft cyntaf y Strategaeth Camfanteisio ar Blant a'r ffaith y cafodd ei oedi. Dywedodd swyddogion ei bod yn bwysig ehangu'r strategaeth, roedd yn bosibl cynnwys masnachu pobl a chamfanteisio troseddol oherwydd bod cysylltiad rhyngddynt oll. Yn gydnaws â'r ddwy ddeddf, dylid cynnwys oedolion a phlant. Clywodd Aelodau bod gweithgor nawr yn gyrru'r strategaeth hon yn ei blaen a bod yr holl randdeiliaid nawr yn ymwneud â hi. Bydd drafft o'r strategaeth hon ar gael ar ddechrau'r flwyddyn nesaf.
- Roedd Aelodau'n awyddus y gael gwybod am y meddylfryd gyfoes ynghylch recriwtio a chadw staff. Dywedodd Swyddogion ei bod yn bwysig atal cystadlu rhwng awdurdodau. Mae angen gosod cap. Mae'r aelodau hefyd yn ystyried nifer o ddewisiadau eraill: meithrin cysylltiadau nes â phrifysgolion er mwyn gallu cynnig lleoliadau a secondiadau; cynllun i ystyried gweithwyr cymorth

cymdeithasol yn cael eu secondio ar radd Feistr; llwythi achos a ddiogelir ar gyfer y rhai sydd ym mlwyddyn gyntaf eu hymarfer, ac wrth gwrs, gobeithir y gellir cynyddu'r cynnig ariannol. Derbynnir bod gweithio 'wrth y drws ffrynt' yn peri llawer o straen meddwl, ond os oedd rhagor o weithwyr cymdeithasol a chynorthwywyr gwaith cymdeithasol, gellid gostwng y llwyth gwaith.

Clywodd Aelodau hefyd fod gweithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso yn y gwasanaethau oedolion yn treulio misoedd yn y gwasanaeth pwynt cyswllt, sy'n rhoi sail dda iddynt cyn cael eu llwyth gwaith eu hunain ac yr ystyrir gwneud rhywbeth tebyg yng Ngwasanaethau'r Plant.

Clywodd Aelodau er bod yr ychwanegiad marchnad wedi ei ddefnyddio o'r blaen, mae'n bwysig mynd i'r afael â'r achos gwraidd, sef nid oes digon o bobl yn dod i mewn i faes Gwaith Cymdeithasol, ond mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru roi arian i'r system.

- Holodd Aelodau a ellid ehangu asiantaeth fewnol y Cyngor, Caerdydd ar Waith, i gynnwys swyddi Gweithwyr Cymdeithasol. Cawsant ateb ei bod yn dal i fod draean yn rhatach cyflogi'n uniongyrchol.
- Trafododd Aelodau'r pwysau cyllidebol yn sydyn a chawsant wybod ei bod yn bwysig buddsoddi yng Ngwasanaethau'r Plant er mwyn rhoi'r systemau angenrheidiol yn eu lle i sicrhau canlyniadau da i'r holl blant a phobl ifanc.

CYTUNWYD - Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet ar ran y Pwyllgor yn mynegi eu sylwadau a'u harsylwadau a wnaethant yn ystod y drafodaeth ar y ffordd ymlaen.

51 : ADRODDIAD YMCHWILIAD Y TU ALLAN I'R SIR – YMATEB Y CABINET

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Graham Hinchey (Aelod Cabinet dros Blant a Theuluoedd), Claire Marchant (Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a Deborah Driffield (Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Gwasanaethau'r Plant) i'r cyfarfod.

Gwahoddodd y Cadeirydd y Cynghorydd Hinchey i wneud datganiad lle cadarnhaodd bod 11 o'r 19 argymhelliad a nodir yn yr adroddiad yn cael eu cydnabod yn llawn, rhai yn rhannol ac un yn unig yn cael ei wrthod. Y sefyllfa bresennol yw y bydd 5 cartref gofal i blant yn y flwyddyn nesaf. Mae angen gwahanol fathau o lety, mae'r rhain yn fath cartref teulu bychan, gyda 2-3 ystafell wely.

Gwahoddwyd Aelodau i roi sylwadau, gofyn am eglurhad pellach neu holi cwestiynau ynghylch yr adroddiad. Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Clywodd Aelodau fod strategaeth comisiynu lleoliadau yn cael eu datblygu, sy'n trafod datblygu cynllun gofal cywir trwy sicrhau bod y gwasanaeth a gomisiynir yn paru â'r canlyniad ar gyfer y person

ifanc yn hytrach na chydymffurfio â'r ddarpariaeth bresennol sydd ar gael. Er bod swyddogion yn derbyn bod gorwariant sylweddol, mae rhan fwyaf o hyn yn gysylltiedig â lleoliad; cafodd Aelodau wybod ei bod yn bwysig cael yr ystod gwasanaethau yn gywir wrth symud ymlaen.

- Pwysleisiodd Aelodau ar bwysigrwydd sicrhau bod y dull gweithredu hwn ar sail nerthoedd yn cael ei sefydlu gyda'n partneriaid, er enghraifft yr Heddlu a'r Gwasanaeth Prawf ac y dylid ei gadw dan arolwg.

CYTUNWYD - Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet ar ran y Pwyllgor yn mynegi eu sylwadau a'u harsylwadau a wnaethant yn ystod y drafodaeth ar y ffordd ymlaen.

52 : DARPARIAETH LLEFYDD MEWN YSGOLION CYNRADD CYFRWNG
SAESNEG YN ARDAL LLANRHYMNI CTY: CRAFFU CYN
PENDERFYNIAD

Ategodd y Cynghorydd Bridgeman fod ganddo fudd yn yr eitem hon ac ni fu'n rhan o'r drafodaeth ar yr eitem hon.

Aeth y Cynghorydd De'Ath i'w le fel Cadeirydd ar gyfer y drafodaeth hon.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Sarah Merry (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet, Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau), Janine Nightingale (Sefydliad Penaethiaid Ysgol, Mynediad a Chynllunio) a Michele Duddridge-Hossain (Rheolwr Gweithredol, Cynllunio a Darpariaeth) i'r cyfarfod.

Gwahoddodd y Cadeirydd y Cynghorydd Merry i wneud datganiad a dywedodd hithau y mynegodd mwyafrif amlwg yn yr ymgynghoriad wrthwynebiad at y pellter oddi wrth ysgolion eraill a mynegwyd pryderon ynghylch plant sy'n mynd i ysgolion ffydd. Yn yr amgylchiadau hyn, yw argymhelliad yw peidio â chau'r ysgol ond gostwng maint yr ysgol a gwneud adroddiad arall wedi addasu'r cynigion.

Gwahoddwyd Aelodau i roi sylwadau, gofyn am eglurhad pellach neu holi cwestiynau ynghylch y cyflwyniad. Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Clywodd Aelodau bod ymdeimlad cryf yn yr ardal ynghylch cau'r ysgol, yn arbennig ar y sail bod yr Ysgol Uwchradd eisoes wedi mynd. Dywedwyd wrth Aelodau bod angen gostwng nifer y papurau dros ben yn yr ardal a dan yr amgylchiadau, gostyngir maint yr ysgol yn un ffrwd mynediad.
- Gofynnodd Aelodau a oedd fframwaith sy'n ystyried goblygiadau ehangach cau a'r amwynderau a gollid yn yr ardal. Dywedodd Swyddogion bod rhaid cynnal Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb a hefyd bod rhaid ystyried unrhyw effaith ar y gymuned fel rhan o unrhyw gynnig.
- Clywodd Aelodau fod yr holl ddewisiadau dan ystyriaeth ar hyn o bryd o ran llefydd ysgol yn yr ardal.

- Holodd Aelodau ynghylch sefyllfa bresennol y gyllideb yn Ysgol Gynradd Glan yr Afon o ystyried y gostyngiad yn niferoedd y disgyblion a chawsant wybod bod diffyg ar hyn o bryd ond eu bod wedi osgoi cario cyllideb ddiffygiol ymlaen.
- Clywodd Aelodau bod llefydd ar ôl yn yr ysgol feithrin.
- Ceisiodd Aelodau eglurhad ynghylch pa mor fodlon yw swyddogion am eu hamcan o ran niferoedd y disgyblion yn yr ardal, yn arbennig o ystyried y datblygiadau tai newydd. Cadarnhaodd swyddogion eu bod yn fodlon ar y cyfrifiad a'r ffigyrau. Mae'r ffigyrau'n cynrychioli'r wybodaeth sydd gennym ar hyn o bryd ac er bod rhaid bod yn hyblyg ynghylch y ffigyrau, mae'n bwysig nad oes gormod dros ben.

CYTUNWYD - Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet ar ran y Pwyllgor yn mynegi eu sylwadau a'u harsylwadau a wnaethant yn ystod y drafodaeth ar y ffordd ymlaen.

53 : CTY 21AIN GANRIF (BAND B) – AILDDATBLYGU YSGOLION
CANTONIAN, WOODLANDS A RIVERBANK

Dychwelodd y Cynghorydd Bridgeman yn ôl i'r Gadair.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Sarah Merry (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet, Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau), Janine Nightingale (Sefydliad Penaethiaid Ysgol, Mynediad a Chynllunio) a Michele Duddridge-Hossain (Rheolwr Gweithredol, Cynllunio a Darpariaeth) i'r cyfarfod.

Gwahoddodd y Cadeirydd y Cynghorydd Merry i wneud datganiad a dywedodd fod Ysgol Uwchradd Cantonian yn un o'r cynlluniau Banc B o ganlyniad i gyflwr yr adeilad a'r gofyniad am ragor o lefydd ysgol yng nghanol y ddinas a gan nad yw'r adeiladau yn Riverside a Woodlands bellach yn addas. Felly mae'n angenrheidiol bod yr ymgynghoriad yn digwydd er mwyn ystyrid ail-godi ac ehangu Ysgol Uwchradd Cantonian, ehangu'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol yn y safle ac adleoli Ysgol Arbennig Woodlands ac Ysgol Arbennig Riverbank i'r safle hwnnw.

Gwahoddwyd Aelodau i roi sylwadau, gofyn am eglurhad pellach neu holi cwestiynau ynghylch y cyflwyniad. Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Trafododd Aelodau'r trefniadau dros dro ar gyfer adeiladu'r ysgolion newydd a chawsant wybod y bydd yr ysgol bresennol yn aros ac y caiff Ysgol Uwchradd Cantonian ei chodi ar y safle; caiff yr ysgol newydd ei chodi yn y cefn. Yna, câi'r hen ysgol ei dymchwel.

Clywyd y byddai cynllun trafndiaeth manwl o ystyried nifer yr ysgolion ar y safle. Rhoddodd swyddogion wybod mai oherwydd nad oes modd galw'r safle yn Cantonian y'i gelwir yn Doyle Avenue, a bydd y cynllun yn cynnwys gwybodaeth ynghylch pa fynediad sydd orau ar gyfer pob ysgol ar y safle.

CYTUNWYD - Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet ar ran y Pwyllgor yn mynegi eu sylwadau a'u harsylwadau a wnaethant yn ystod y drafodaeth ar y ffordd ymlaen.

54 : ADRODDIAD YMHOLIAD CYFFURIAU DRAFFT Y CYDBWYLLGOR

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Ibrahim, cadeirydd yr Ymholiad i'r cyfarfod.

Dywedodd y Cynghorydd Ibrahim mai canlyniad ymchwiliad saith mis yw'r adroddiad, ar yr effaith a all delio cyffuriau ei chael ar fywyd person ifanc, ei deulu a'r gymuned ehangach. Cymeradwywyd yr adroddiad, yn cynnwys 46 canfyddiad allweddol a 19 argymhelliad gan Bwyllgor Craffu ar Wasanaethau'r Gymuned ac Oedolion ar 5 Rhagfyr 2018.

CYTUNWYD: Cafodd Aelodau wybod bet yw cynnwys yr adroddiad drafft a gaiff ei gyflwyno i'r Cabinet.

55 : RHAGLEN WAITH

Cyflwynodd Martyn Hutchings (y Prif Swyddog Craffu), yr adroddiad.

CYTUNWYD – Nodi'r adroddiad a chyhoeddi'r rhaglen waith.

56 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Dilyswyd yr eitem ganlynol gan y Cadeirydd fel Eitem Frys er mwyn gallu rhoi gwybod i'r Pwyllgor am gyhoeddi adroddiad Arolygwyr Estyn ym mis Hydref 2018 ar Ysgol Gynradd Gatholig Sant Pedr a chytunwyd ar broses er mwyn i'r Pwyllgor drafod yr adroddiad ymhellach.

57 : Y FFORDD YMLAEN

Trafododd aelodau'r wybodaeth a dderbyniwyd gan nodi nifer o faterion y cytunodd y Cadeirydd y byddai'n cael eu cynnwys yn y llythyrau a fyddai'n cael eu hanfon, ar ran y Pwyllgor, at yr Aelodau Cabinet a'r Swyddogion perthnasol.

58 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Dyddiad y cyfarfod nesaf yw dydd Iau 15 Ionawr 2019. Trefnwyd bod y cyfarfod yn digwydd yn Ysgol Uwchradd y Dwyrain.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.14 pm